MWYA'R BRYS

LLEIA'R CYFLYMDER

Gweithredu'n gyflymach i gyflawni newid cost-effeithiol i deithio cynaliadwy erbyn 2020.

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT

Caiff y ffordd yr ydym yn teithio effeithiau anferthol ar ein hamgylchedd, ein hiechyd, ein hansawdd bywyd a'n heconomi.

Yn y DU caiff teithio ei ddominyddu gan ddefnydd o'r car, gan olygu lefelau cynyddol o allyriadau CO2, ffyrdd gorlawn, dibyniaeth uchel ar olew, gyda mwy a mwy ohono'n cael ei fewnforio.

Mae'n gylch dieflig. Po fwyaf y bydd y car yn dominyddu, lleiaf abl y bydd pobl i deithio ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus; a mwyaf y bydd cyllidebau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar alluogi mynediad gyda char.

O ganlyniad, defnydd o'r car yw'r un ffynhonnell fwyaf o CO_2 a ddaw o drafnidiaeth yn y DU. Mae ein gofod cyhoeddus yn cael ei ddominyddu gan ffyrdd llawn ceir, yn achosi llygredd ac yn creu amgylchedd ffisegol sy'n annog pobl i beidio â cherdded a beicio. Bydd hyn, yn ei dro, yn cyfrannu i amrywiaeth o gyflyrau iechyd, megis gordewdra. Nid felly y mae'n rhaid iddi fod.

Mae buddsoddi mewn galluogi pobl i deithio'n amlach ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus nid yn unig yn ateb hynod gost-effeithiol i heriau teithio, bydd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol iawn i ymdrechion y llywodraeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd, a chyllidebau iechyd ac ynni sy'n cynyddu'n barhaus.

GALW AM WEITHREDU

Mae angen i lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol weithredu gyda llawer mwy o frys i feithrin ymddygiad teithio sy'n wirioneddol gynaliadwy. Mae galluogi pobl i deithio'n bell a chyflym yn mynd â'n system drafnidiaeth i'r cyfeiriad anghywir.

> *Mae Sustrans yn galw ar lywodraethau'r DU i fuddsoddi mewn dyblu'r nifer o siwrneiau llai na phum milltir a wneir ar droed, ar feic a thrafnidiaeth gyhoeddus i bedair allan o bump erbyn 2020.*

Mae'r galw am weithredu hwn yn egluro'r newidiadau - rhai'n fach, rhai'n sylweddol iawn – fydd angen iddynt ddigwydd i gyflawni'r canrannau 2020 a awgrymir isod. Bydd lefel y newid fydd ei angen yn amrywio rhwng un lle a'r llall. Yng Nghaeredin, er enghraifft, caiff 22% o siwrneiau eisoes eu gwneud ar droed, ym Manceinion Fwyaf gwneir 28% ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac yng Nghaergrawnt gwneir 26% o siwrneiau i'r gwaith ar feic. Felly mae dinas Caerceingrawnt eisoes ar y ffordd i gyflawni ein galw am weithredu. Nawr rydym angen i bob tref, dinas a phentref yn y DU wneud y symudiad hwn erbyn 2020.



Ffynhonnell: Yr Adran Drafnidiaeth, Arolwg Teithio Cenedlaethol 2008 ar gyfer Prydain Fawr. Tabl 3.5 Teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl pellter a'r prif fodd: 2008 (Siwrneiau dan bum milltir)

[1] **Llywodraeth yr Alban, 2005** Scottish Household Survey Travel Diary canlyniadau ar gyfer 2003
[2] **Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr Manceinion Fwyaf, 2006** Cynllun Trafnidiaeth Lleol Manceinion Fwyaf 2 2006/07-2010/11 Strategaeth Bws
[3] **Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2002** Cyfrifiad 2001: Ystadegau Allweddol ar gyfer awdurdodau lleol

1

Annog pobl i newid eu hymddygiad teithio

- Sefydlu rhaglenni newid ymddygiad teithio ledled y DU gan ddefnyddio technegau a brofwyd ac sy'n gost effeithiol i annog a chefnogi pobl i deithio'n fwy cynaliadwy o fewn cymunedau ac i weithleoedd, ysgolion, addysg bellach ac uwch, canolfannau hamdden a chanolfannau manwerthu.
- Rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bob plentyn a pherson ifanc i feithrin yr arfer o deithio ar droed a beic yn gynnar yn eu bywyd.

2 Creu amodau diogel ac atyniadol ar gyfer cerdded a beicio

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cerdded a beicio o safon uchel mewn ardaloedd gwledig a threfol - ailddosbarthu gofod ffordd i ddarparu llwybrau diogel i gyrchfannau pob dydd sydd wedi'u hintegreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Ail-ddylunio strydoedd i leihau cyflymder traffig, a gorfodi terfynau cyflymder 20mya neu lai ym mhob ardal breswyl ac adeiledig.
- Creu a gorfodi deddfau traffig i amddiffyn y defnyddwyr gofod cyhoeddus a ffyrdd mwyaf agored i niwed.

3 Cynyddu defnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus drwy wella ac integreiddio gwasanaethau a lleihau prisiau tocynnau

- Cyflwyno cardiau teithio cenedlaethol gan adeiladau ar lwyddiant y Cerdyn Oyster yn Llundain a chardiau teithio mewn dinasoedd eraill i alluogi mwy o hyblygrwydd, dewis ac integreiddiad.
- Darparu gwasanaethau teithio mwy ymatebol i'r galw ar gyfer pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig a threfol fel eu bod yn gallu dewis teithio yn gynaliadwy.

4 Sicrhau bod polisi ac arfer cynllunio yn lleihau'r angen i deithio

- Rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiadau defnydd cymysg yn unig, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel a chyfyngiadau parcio yn bodoli'n barod.

Diwygio trethiant a chynyddu gwariant ar deithio cynaliadwy

5

- Buddsoddi yn unig mewn cynlluniau a mentrau sy'n lleihau teithio carbon uchel.
- Ailsefydlu escaladur treth tanwydd ledled y DU i wrthdroi'r gostyngiad presennol yng nghost moduro.
- Cyflwyno ardollau parcio mewn gweithleoedd ac ardaloedd manwerthu a defnyddio'r arian i fuddsoddi mewn gwella amgylchoedd ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Sefydlu rhaglenni gosod prisiau ffyrdd DU gyfan a buddsoddi'r arian mewn gwella amgylchoedd ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Sustrans yn galw ar lywodraethau'r DU i fuddsoddi mewn dyblu'r nifer o siwrneiau llai na phum milltir a wneir ar droed, ar feic a thrafnidiaeth gyhoeddus i bedair allan o bump erbyn 2020.

Sustrans yw elusen trafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU
I gael gwybod mwy ewch i www.sustrans.org.uk neu ffoniwch 0845 113 00 65

© Sustrans Chwefror 2010
Elusen Gofrestredig Rhif. 326550 (Lloegr a Chymru) SCO39263 (Yr Alban)

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT